



Dyddiad cyhoeddi: 24 Chwefror 2020

Cais rhyddid gwybodaeth

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth diweddar a ystyriwyd yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth. Gallaf gadarnhau bod gennym rywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

Mae'r atebion i bob cais wedi'u cynnwys ym mhob un o'ch cwestiynau.

Cwestiynau sy'n ymwneud â'r map

- 1. Rwy'n gweld bod cynlluniau dyblu o gangen Penarth wedi newid ac nad oes bwriad i greu ail blatfform yn Heol Dingle mwyach. Allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf ac unrhyw gynlluniau ar gyfer y gwaith arfaethedig hwn.**

Bydd gorsaf Heol Dingle yn cadw'r platfform presennol yn unig. Ni allwn gadarnhau'r gwaith yn yr orsaf hon ar hyn o bryd gan ein bod yn dal i gynllunio.

- 2. Allwch chi gadarnhau beth mae'r lliwiau comisiynu yn ei gynrychioli. e.e. system signalau, OLE, ac ati**

Mae'r lliwiau comisiynu yn cynrychioli comisiynu Signalau a Ffordd Barhaol dau gam sydd ar gyfer dechrau gwasanaeth fel rhan o waith uwchraddio'r seilwaith.

Seilwaith

- 3. Allwch chi ddarparu cynllun diweddar ar gyfer Gorsaf Heol y Frenhines ar ei newydd wedd, o ran seilwaith rheilffyrdd a signalau. Yng nghyfarfod diweddar y pwyllgor, dywedodd James Price fod yr holl gynlluniau wedi'u cwblhau erbyn hyn ac y byddai'r gwaith trawsnewid yn dechrau ar ôl cwblhau'r trosglwyddiad (disgwylir 31/03/20)**

Mae Gorsaf Heol y Frenhines yn rhan o Adran Llwybr De Heol y Frenhines ac nid yw'r gwaith dylunio rhagarweiniol wedi cychwyn yno eto. Nid yw'r wybodaeth y gofynnir amdani ar gael ar hyn o bryd.

Llinellau newydd arfaethedig

- 4. Hoffwn ofyn am fap manwl o'r llinellau arfaethedig newydd yng Nghaerdydd. Mae'r rhain yn cynnwys Cledrau Croesi Caerdydd (estyniad Coridor y Gogledd-orllewin a'r Bae i Heol Casnewydd, ynghyd â chyswllt Canol Caerdydd i'r Bae) a llinell Cylch Caerdydd (Coryton i Linellau Craidd y Cymoedd). A fyddech cystal ag anfon copi o amserlen arfaethedig y datblygiadau hyn hefyd.**

Nid oes gan Trafnidiaeth Cymru fap manwl o'r llinellau newydd arfaethedig. Dyhead / polisi Cyngor Caerdydd yw Cledrau Croesi Caerdydd a Chylch Caerdydd ac nid yw'n ymrwymiad gan Trafnidiaeth Cymru ar hyn o bryd. Bydd manylion pellach ar gael gan Gyngor Caerdydd ac yn y [Papur Gwyn](#) newydd ei gyhoeddi sydd ar eu gwefan. Ar hyn o bryd, nid oes gan Trafnidiaeth Cymru unrhyw amserlenni ar gyfer unrhyw brosiectau neu



raglenni seilwaith yng Nghaerdydd y tu hwnt i gyflawni rhaglen drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd erbyn diwedd 2023.

5. Rwy'n deall y gallai rhywfaint o hyn newid, ond cyhoeddwyd y byddai cyswllt Canol Caerdydd i'r Bae yn agor erbyn 2024 felly dylai'r manylion hynny fod yn weddol gyflawn gennych.

Nid yw Trafnidiaeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn agor cyswllt Canol Caerdydd i'r Bae erbyn 2024. Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw ymrwymiadau ar gyfer cyswllt o'r fath ac mae'n ddyddiau cynnar o hyd o ran asesu ei botensial o ran achos busnes ac opsiynau cyflawni.

6. Rwy'n ymwybodol o'r cynllun hwn

<https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Planning/Local-Development-Plan/Documents/Map%20B.pdf> sy'n dangos llwybrau coridor posibl y Gogledd-orllewin. Os nad oes cynlluniau manwl o'r adran hon ar gael gan Trafnidiaeth Cymru, allwch chi gadarnhau p'un o'r llwybrau a ddangosir yw'r llwybr a fwriedir a'r camau cyflwyno (os yn berthnasol)

Mae astudiaeth Cam 1 WelTAG (Achos Amlinellol Strategol) yn mynd rhagddi ar hyn o bryd ar gyfer Coridor y Gogledd-orllewin sy'n cwmpasu ardal Pont-y-clun/Beddau i Ganol Caerdydd yn fras. Mae'n ystyried yr holl opsiynau trafndiaeth gyhoeddus i weld a oes achos dros fwrw ymlaen ag unrhyw un i'r cam nesaf (WelTAG 2 neu Achos Busnes Amlinellol). Os bydd Coridor y Gogledd-orllewin yn mynd yn ei flaen i WelTAG 2, bydd cyfle i ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ar opsiynau'r rhestr fer. Ar hyn o bryd ni wyddom pryd fydd hyn yn digwydd, gan ei fod yn dibynnu ar ganlyniad Cam 1 WelTAG, a oes cyllid ar gael a blaenoriaethau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Trafnidiaeth Cymru.

Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru